

# YDI'CH GOBATH CHI'N SEILIEDIG AR WYDDONIAETH NEU AR Y BEIBL?

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Canolwch sylw ar ddibynadwyedd y Beibl. Nid datrysiaidau dynol yn seiliedig ar wyddoniaeth ydi'r ateb. Dangoswch fod sail gadarn dros ymddiried yng ngobaith y Beibl ar gyfer y dyfodol.

## **MAE LLAWER YN DWEUD MAI GWYDDONIAETH, NID Y BEIBL, SY'N CYNNIG GOBATH AR GYFER Y DYFODOL** (8 mun.)

Mae rhai yn credu y bydd gwyddonwyr ymhen amser yn datrys bob problem

Mae hanes yn profi fod gwyddoniaeth yn aml yn methu â chyflawni ei haddewidion

Mae'r llyfr *The Experts Speak* yn tadogi'r rhagfynegiad hwn ar John Langdon-Davies, newyddiadurwr Prydeinig a Chymrawd y Sefydliad Brenhinol Anthropolegol, yn 1936: "Os ydym ni i ddechrau deall bywyd fel y bydd yn 1960, bydd yn rhaid cychwyn trwy sylweddoli na fydd bwyd, dillad a lloches yn costio fawr ddim" (*w86 5/15 3*)

Mae llawer o ddisgwyliadau anghyflawnedig (Gweler *g86 11/8 3*)

Mae rhai gwyddonwyr yn honni mai gan wyddoniaeth mae'r allweddau i oresgyn angau a bod sicrhau bywyd tragwyddol o fewn eu gallu (*g90 4/22 4*)

Mae'r Beibl, fodd bynnag, yn ein hannog ni i ymddiried yn Jehofah, nid mewn dyn (*Salmau 118:8*)

Mae gallu a Duwdod y Creawdwr i'w gweld yn eglur yn y greadigaeth ffisegol (*Rhuf 1:20*)

Ond dim ond lleiafrif sy'n rhoi hyder dilys yn Nuw (*Salmau 31:14*)

Sut 'rydych chi'n teimlo? Oes 'na sail gadarn dros ymddiried eich gobaith ar gyfer y dyfodol ar wyddoniaeth? Beth am y Beibl? 'Fedrwn ni ymddiried yn yr hyn a ddywed y Beibl am y dyfodol?

## **YDI GWYDDONIAETH YN SYLFAEN DDIBYNADWY I OBEITHIO YNDDI?** (12 mun.)

'Does dim gwadu ar lawer o gyflawniadau gwyddoniaeth ac maen' nhw'n ganmoladwy

I rai mae llawer o ddyfeisiau modern wedi golygu dileu gwaith diflas oedd yn cymryd llawer o amser Meddyliwch am fanteision y ffôn, y car, awyrennau, cyfrifiaduron

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn gyfyngedig ac yn aml maen' nhw'n achosi problemau difrifol

Mae cannoedd o filoedd yn marw bob blwyddyn mewn damweiniau car; miliynau'n cael eu hanafu

Mae gwyddonwyr wedi ymyrryd â'r amgylchedd a'i gydbwysedd ecolegol

Mae termau fel "glaw asid," "effaith tŷ gwydr," a "dadfforestu" yn adlewyrchu methiant gwyddoniaeth

Fe ragfynegodd y Beibl y sefyllfa hon yn gywir (*Dat 11:18*)

Effeithiau llygredd ar iechyd dyn (*g90 12/22 28*)

Mae llawer yn teimlo fod defnyddio cyfrifiaduron wedi ymyrryd â'u preifatrwydd (*g88 2/22 3*)

Mae llawer o wyddonwyr yn cael eu cyflogi i wneud ymchwil milwrol (*g89 6/8 6*)

Arfau soffistigedig wedi achosi angau cannoedd o filoedd

Mae rhai gwyddonwyr wedi ffugio data mewn ymdrech i ennill bri ac elw ac i hybu eu damcaniaethau (*g90 1/22 2-15*)

Mae'r llyfr *Environmental Ethics* yn dweud: "Gwas cyfyngedig o ran ei ddefnyddioldeb ydi technoleg, ac mae'n annibynadwy dros ben. Pan fo'n datrys problem, yn aml mae'n creu dwy newydd—ac mae eu sgil effeithiau nhw fel arfer yn anodd eu rhagweld" (*tp 16-17*)

Yn hanesyddol nid oes gan wyddoniaeth enw arbennig o dda am ddatrys problemau oesol, megis angau, clefyd, anghyfraith, anfoesoldeb, a rhyfel (*w91 6/15 3-5; w90 10/1 4-5; w88 6/15 27*)

## **MAE GWIR WYDDONIAETH YN CADARNHAU DIBYNADWYEDD Y BEIBL AC YN DARPARU SAIL GADARN DROS ROI EIN FFYDD YNDDO** (13 mun.)

Mae'r enghreifftiau sy'n dilyn yn dangos fod y Beibl yn wyddonol gywir a'i fod yn adlewyrchu gwybodaeth wyddonol nad oedd ar gael drwy archwiliad dynol yr adeg yr ysgrifennwyd y Beibl (*ce 199-207*)

Ffurf amgrwn sydd i'r ddaear wedi'i 'gosod ar ddim' (*Job 26:7; Eiseia 40:22*)

Y cylch dŵr (*Preg 1:7*)

Cwarantîn (*Lef 13:46; it-1 633*)

Effaith yr emosïynau ar iechyd y corff (*Diar 14:30; 17:22*)

Mae gwybodaeth wyddonol a ddatguddiwyd cyn ei darganfod gan ddyn yn profi ysbrydoliaeth ddwyfol y Beibl ac yn tystio ei fod yn ddibynadwy

## **RHOWCH EICH GOBATH YN Y BEIBL, FFYNHONNELL GWIR OBAITH** (12 mun.)

Er mwyn cael rhagolwg disglair ar gyfer y dyfodol, mae angen i chwi gael gobaith cadarn ei sail

Yr unig un fedr roi'r fath obaith ydi'r Creawdwr, Jehofah Dduw

Mae e'n darparu gwir obaith drwy gyfrwng y Beibl (*Rhuf 15:4*)

Mae'r Beibl yn dangos mai yn yr atgyfodiad y mae gobaith y meirw (In 5:28, 29)

Gobaith sicr ydi hwn (Act 17:31)

Cadarnhawyd gwyrth atgyfodiad Iesu drwy iddo ymddangos yn ddiweddarach o flaen dros 500 o bobl (1Cor 15:3-8; w86 8/15 19)

Cawn sicrwydd gobaith diogel yn y Beibl

Cyfeiriodd Paul at sicrwydd gair Duw

Mae'r "gair" 'rydym wedi'i glywed yn y genhedlaeth hon yn ddibynadwy (Heb 4:12; 6:18)

Dim ond medru bwrw amcan ynglŷn â'r dyfodol mae gwyddoniaeth, ond mae'r Beibl yn rhagfynegi'r dyfodol yn drachywir (w92 5/15 6-7)

Pa obaith ynglŷn â'r dyfodol y mae'r Beibl yn ei roi?

Fe fydd teyrnasu Duw yn disodli rheoli dyn (Dan 2:44)

Fe fydd pobl ffyddlon yn goroesi dinistrïo'r byd (Seff 2:3)

Fe fydd 'na fyd newydd (Dat 21:1-4)

Rhowch eich gobaith yn y Beibl, nid mewn gwyddoniaeth (Salmau 146:3, 4)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)